**Ken Skates AC/AM**
**Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy and Transport**

**Hannah Blythyn AC/AM**
**Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Deputy Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: KS-29-19

Aelodau'r Cynulliad

4 Tachwedd 2019

Annwyl Aelod,

**Cefnogi cymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru**

Bydd llawer o'r Aelodau wedi cymryd rhan, neu'n bwriadu cymryd rhan, mewn gweithgareddau Coffáu yn ystod cyfnod y cofio, gan ddangos eich cefnogaeth barhaus i aelodau ein Lluoedd Arfog, a chydnabod aberth cynifer ohonynt.

Yn 2019, rydym unwaith eto wedi gweld gweithgarwch coffa sylweddol a theimladwy, gan gynnwys gweithgareddau a oedd yn ymwneud â *D-Day 75* yn y DU ac yn Ffrainc. Teithiodd y Prif Weinidog i'r Iseldiroedd yn ddiweddar i gymryd rhan mewn nodi 75 o flynyddoedd ers i'r Adran 53 (Cymreig) ryddhau dinas 's-Hertogenbosch yn 1944.

Mae hefyd yn bwysig ein bod yn cofio'r rheini sydd wedi gwasanaethu ein gwlad mewn gwrthdaro mwy diweddar. Mae llawer o gyn-filwyr yn byw yma yng Nghymru, yn ogystal â'r aelodau o'r Lluoedd Arfog sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd, a'u teuluoedd. Mae gan ein cyn-filwyr a'r teuluoedd hyn brofiadau a sgiliau pwysig sy'n gallu fod o fantais i'r cymunedau y maent yn byw ynddynt a'r busnesau a'r mentrau eraill sy'n eu cyflogi.

Ym mis Rhagfyr y llynedd, lansiodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ar y pryd becyn cymorth BITC Cymru '**Ysbrydoli, Cyflogi a Thyfu: Pecyn Cymorth i Gyflogwyr.** Cafodd y canllaw hwn ei lunio i helpu mwy o fusnesau yng Nghymru i gyflogi pobl ar ôl iddynt adael y Lluoedd Arfog, drwy nodi sut y gallai busnesau fanteisio ar eu sgiliau a phrofiad gwerthfawr.

https://llyw.cymru/cyflogi-cyn-filwyr-milwyr-wrth-gefn-y-lluoedd-arfog-canllaw-i-gyflogwyr?_ga=2.65177390.1207289062.1571823861-1165475327.1570627919

https://gov.wales/employing-armed-forces-veterans-and-reservists-guide-employers

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ym mis Medi 2019, lansiodd Ffederasiynau Teuluoedd y Lluoedd Arfog – sy'n cynnwys Ffederasiwn Teuluoedd y Llynges Frenhinol, Ffederasiwn Teuluoedd y Fyddin, a Ffederasiwn Teuluoedd yr RAF – wefan newydd o'r enw ***Forces Families Jobs***. Platfform hyfforddi a chyflogi newydd yw'r wefan hon, sydd â'r nod o helpu aelodau o deuluoedd y Lluoedd Arfog i ddod o hyd i swyddi gwerth chweil, drwy ddarparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu. Caiff busnesau gofrestru eu diddordeb ar y wefan *Forces Families Jobs*, gan bostio eu swyddi'n uniongyrchol i aelodau teuluoedd y rheini sy'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog.

https://www.forcesfamiliesjobs.co.uk/

Yn ogystal â hynny, mae BITC Cymru wedi datblygu fforwm ar gyfer y Lluoedd Arfog, sy'n cynnwys cyflogwyr allweddol, cyfleoedd i rannu'r arferion gorau, ac ymgais i dynnu sylw busnesau eraill i'r manteision a ddaw o gyflogi'r rheini sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog. Hefyd mae sefydliadau megis Cymdeithas y Swyddogion yn cynnal fforymau ac yn darparu hyfforddiant i fusnesau yng Nghymru, gan ddefnyddio pecyn cymorth BITC Cymru fel templed gweithredu.

Mae Cymru yn ymfalchïo yn ei chysylltiadau â'r Lluoedd Arfog a'i chyn-filwyr. Ar yr adeg bwysig hon o'r flwyddyn, wrth inni gofio aberth llawer o'r rheini sydd wedi gwasanaethu, hoffem ofyn ichi ddefnyddio'r cyfle hwn i helpu i godi ymwybyddiaeth o'r hyn a gynigir, ymysg aelodau'r gymuned busnes yn eich etholaeth, gan gynnwys drwy'r Cynllun Cydnabod Cyflogwyr gan y Weinyddiaeth Amddiffyn.
https://www.gov.uk/government/publications/defence-employer-recognition-scheme/defence-employer-recognition-scheme

Yn gywir,

**Ken Skates AC/AM**
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Minister for Economy and Transport

**Hannah Blythyn AC/AM**
Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol
Deputy Minister for Housing and Local Government